**Datganiad Busnes Drafft ar gyfer y 3 wythnos nesaf a Phenderfyniadau'r Dirprwy Lywydd ar gyfer 24 Hydref 2006**

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 24 Hydref penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6 nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

- Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006
- Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006
- Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006
- Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2006

**<u>Y Datganiad Busnes Drafft</u>**

***Toriad Hanner Tymor yr Hydref 30 Hydref – 3 Tachwedd 2006***

**Dydd Mawrth 7 Tachwedd a Dydd Mercher 8 Tachwedd 2006**

**Dydd Mawrth 14 Tachwedd a Dydd Mercher 15 Tachwedd 2006**

**Dydd Mawrth 21 Tachwedd a Dydd Mercher 22 Tachwedd 2006**

**<u>Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2006</u>**

- **Etholiadau i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol (1 funud)**

- **Cynnig i ethol aelod i`r Pwyllgor dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (1 funud)**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

    Ø **Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2006**
    Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006, a ddaeth i rym ar 3 Mawrth 2006. Maent yn pennu'r ffioedd sy'n daladwy gan y rheini sy'n gwneud cais i datws hadyd gael eu dosbarthu o dan Reoliadau Tatws Hadyd 1991. Maent yn adlewyrchu'r newidiadau i'r derminoleg a ddefnyddir i ddosbarthu tatws hadyd cyn-sylfaenol.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006 (15 munud)**
Yr hyn y mae'r Rheoliadau hyn yn ei wneud yn bennaf yw cydgrynhoi Rheoliadau Tatws Hadyd 1991 (sy'n gymwys i Brydain), ac o ganlyniad i hynny, mae ynddynt hefyd ddiwygiadau. At hynny, byddant yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/56/EC ynghylch marchnata tatws hadyd a Phenderfyniad y Comisiwn 2004/842/EC ynghylch marchnata tatws hadyd, at ddibenion profion a threialon, sy'n perthyn i amrywogaethau y mae cais wedi'i gyflwyno i'w hychwanegu at y Rhestr Genedlaethol. Bydd y Rheoliadau hefyd yn cyflwyno mân newidiadau i'r

trefniadau ardystio.

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (20 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2006**
  Mae Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991 yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaith stryd, ac fe'i hategir gan Reoliadau a Chodau Ymarfer. O dan adrannau 71 a 104(3) o'r Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, roedd Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) 1992 yn pennu'r gofynion o ran y manylebau ar gyfer y deunyddiau sydd i'w defnyddio, a'r safonau crefftwaith y mae ymgymerwyr megis cwmnïau d•r, trydan a thelathrebu i gadw atynt wrth adfer strydoedd, gan gyfeirio at God Ymarfer (y Fanyleb) a gyhoeddwyd ym 1992. Byddai'r Rheoliadau arfaethedig yn disodli ac yn dirymu (mewn perthynas â Chymru) Reoliadau Gwaith Stryd (Adfer) 1992 ac yn gwneud cydymffurfio â Manyleb newydd fwy diweddar yn ofyniad cyfreithiol.

- **Cynnig i gymeradwyo'r Fanyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd 2il Argraffiad 2006 o dan Reol Sefydlog 29**
  Mae'r Fanyleb ddiwygiedig arfaethedig hon yn pennu'r safonau y mae'n rhaid i ymgymerwyr (e.e. cwmnïau d•r) neu eu contractwyr gydymffurfio â hwy wrth adfer y briffordd ar ôl gwneud gwaith cynnal a chadw ar gyfarpar sydd wedi'i gladdu o dan y ffordd neu wrth osod cyfarpar newydd. Bwriedir i'r Fanyleb sicrhau, er enghraifft, fod y gwaith adfer yn gyfwyneb â gweddill wyneb y ffordd ac nad yw'n dirywio'n gynt na gweddill y ffordd. Mae hefyd yn pennu'r deunyddiau cymeradwy y mae'n rhaid i ymgymerwyr eu defnyddio, er enghraifft, asffalt neu goncrid.

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (30 munud)**

- **The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) (No2) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)**
  Bydd y Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli'r Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) Order 2006. Mae’r Gorchymyn hwn yn trosi rhan o Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau’r Gymuned i reoli'r ffliw adar ac yn diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EC, ac eithrio pennod ix. Nid oes

yn rhaid trosi'r Gyfarwyddeb tan 1 Gorffennaf 2007, ond ar adeg pryd y mae mwy o bosibilrwyd i'r haint ymledu, bernir ei bod yn hanfodol ei throsi cyn gynted ag y bo modd. Mae'r Gorchymyn yn gweithredu rhannau o:

- Benderfyniad y Comisiwn 2005/734/EC sy'n pennu mesurau bioddiogelwch er mwyn lleihau'r risg bod y ffliw adar pathogenig iawn (H5N1) yn cael ei throsglwyddo o adar gwyllt i ddofednod ac i adar caeth eraill ac er mwyn sefydlu cyfundrefn i ganfod unrhyw achosion yn fuan mewn ardaloedd lle mae risg penodol; a

- Penderfyniad y Comisiwn 2006/474/EC ynghylch mesurau i atal y ffliw adar pathogenig iawn (H5N1) rhag cael ei throsglwyddo i adar sy'n cael eu cadw mewn s•au ac mewn cyrff, sefydliadau a chanolfannau cymeradwy yn yr Aelod-wladwriaethau, ac sy'n diddymu Penderfyniad 2005/744/EC.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn cywiro camgymeriadau technegol yn y Gorchymyn gwreiddiol.

- **Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006 ac yn gweithredu diwygiadau technegol. Prif ddiben y newidiadau yw sicrhau cysondeb â Gorchmynion eraill sy'n ymdrin â'r Ffliw Adar ac adlewyrchu'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud i'r Rheoliadau drafft yn Lloegr ers i ni wneud ein gorchmynion ni ym mis Gorffennaf eleni. Byddant yn parhau i roi effaith yng Nghymru o dan y gyfraith ddomestig i Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau'r Gymuned i reoli'r ffliw adar ac yn diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EEC, i'r graddau y mae'n ymdrin â brechu rhan y ffliw adar.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

- **Dadl am Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y T• (15 munud)**

**<u>Dydd Mercher 8 Tachwedd 2006</u>**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol**

**ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28, ac fel y pennir yn y rhestr o gyfrifoldebau'r Gweinidogion (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 21/2004 yng Nghymru, drwy sefydlu cyfundrefn well ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid o deulu'r ddafad (Defaid) ac anifeiliaid o deulu'r afr (Geifr). Mae'n diwygio Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi Cyfarwyddeb 2002/2/EC Senedd a Chyngor Ewrop dyddiedig 28 Ionawr 2003, a oedd yn diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 79/373/EEC ynghylch cylchredeg bwydydd anifeiliaid cyfansawdd, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 91/357/EEC. Byddant yn ailgyflwyno yng Nghymru un o fesurau'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fwydydd anifeiliaid cyfansawdd gael eu labelu â rhestr o gynhwysion, yn ôl y ganran ohonynt a gynhwyswyd, a hynny mewn trefn ddisgynnol a chyda goddefiant heb fod yn fwy na +/- 15% ar gyfer pob datganiad. Yn wreiddiol, roedd y Comisiwn wedi cynnig y mesur hwn yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/2/EC, sef un o nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth a fyddai, yn ôl pob tebyg, yn gwneud bwydydd yn fwy diogel.

- **Cynnig i gymeradwyo'r Plant Protection Products (Amendment) (No.2) Regulations 2006 o dan Reol Sefydlog 25 adran 3, Reol Sefydlog 25.14 a Reol Sefydlog 24.25 (15 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud ar y cyd, yn diwygio'r Plant Protection Products Regulations 2005, sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr Gyfarwyddeb 91/414/EEC sy'n ymwneud â rhoi cynhyrchion i ddiogelu planhigion ar y farchnad.

- **Dadl am Adroddiad Gwerthuso 1af Cymunedau yn Gyntaf (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog sydd â Chyfrifoldeb dros Gydraddoldeb: Adroddiad Blynyddol am Gynllun Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cynulliad Cymru (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

  Ø **Rheoliadau Tenantiaethau Rhagarweiniol (Adolygu Penderfyniadau i Estyn Cyfnod Treialu) (Cymru) 2006**

  Ar 25 Tachwedd 2005, gweithredwyd amryfal ddarpariaethau yn Neddf Tai 2004 gan Orchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005. Ymhlith y darpariaethau hynny yr oedd yr un o dan Adran 179, a oedd yn diwygio Deddf Tai 1996 drwy fewnosod adrannau 125A a 125B newydd, er mwyn caniatáu i denantiaeth ragarweiniol gael ei hestyn am gyfnod o hyd at chwe mis.

  Mae'r Rheoliadau'n pennu'r gweithdrefnau i'w dilyn gan landlordiaid cymdeithasol os yw tenant yn gofyn i'r landlord adolygu ei benderfyniad i estyn tenantiaeth ragarweiniol. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig Tenantiaethau Rhagarweiniol i denantiaid newydd. Os yw landlord yn dewis mabwysiadu cynllun tenantiaeth ragarweiniol, mae'n rhaid iddo gymhwyso'r cynllun hwnnw yn achos pob tenant newydd. Os bernir, ar ôl y cyfnod rhagarweiniol o flwyddyn, fod y denantiaeth yn foddhaol, bydd yn dod yn denantiaeth ddiogel yn awtomatig. Os nad yw'n foddhaol, caiff y landlord droi'r tenant allan heb fod yn rhaid iddo roi unrhyw resymau dros wneud hynny.

  Ø **Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2006**

  Bydd y Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid

Penodedig 1998 (O.S. 1998 Rhif 463) er mwyn ychwanegu tri chlefyd arall, sef: feirws clefyd Nipah; feirws Nîl y Gorllewin ac enseffalomyelitis ceffylaidd St Louis at Ran 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn.

Ø **Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 2005/79/EC ac yn diwygio Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/72/EC. Mae'r diwygiad i Gyfarwyddeb 2002 yn diweddaru'r rhestrau o fonomerau [1] ac ychwanegion [2] a ganiateir, a'r amodau ar gyfer eu defnyddio wrth weithgynhyrchu plastigau sy'n dod i gysylltiad â bwyd. Mae statws cyfreithiol y monomerau a'r ychwanegion yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd pan fo Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop wedi adolygu barn sy'n bodoli eisoes, neu wedi cyhoeddi barn newydd, ynghylch pa lefel o sylwedd penodol y mae'n ddiogel i unigolyn ei lyncu'n ddyddiol yn ystod ei oes. Mae'n rhaid hefyd fod y Comisiwn Ewropeaidd a'r Aelod-wladwriaethau wedi derbyn y farn honno.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1895/2005, ynghylch y cyfyngiadau ar ddefnyddio deilliadau epocsi penodol (cyfansoddion cemegol) y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd. Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu'r Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 1998 a'r holl ddiwygiadau a wnaed wedi hynny i'r Rheoliadau hynny (Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/16/EC a 2004/13/EC). Y Rheoliadau hyn fydd y brif ddeddfwriaeth yng Nghymru er mwyn rheoli'r sylweddau y ceir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu plastigau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd, a byddant yn gosod terfynau ar y graddau y caniateir i'r plastigau hynny drosglwyddo eu cyfansoddion i fwyd.

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (15 munud)**

- **Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hynny yn pennu'r holl danwyddau yr awdurdodir eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys saith tanwydd newydd yr awdurdodir eu defnyddio am y tro cyntaf. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cydgrynhoi ac yn disodli Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001 (OS 2001/3762) a Rheoliadau Ardaloedd Rheoli

Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 (OS 2002/3160).

- **Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006**

Mae Adran 18 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn galluogi awdurdodau lleol i ddatgan bod y cyfan o'u hardal, neu ran ohoni, yn ardal rheoli mwg drwy wneud "Gorchymyn Rheoli Mwg". Mae Adran 20 o'r Ddeddf yn gwahardd mwg rhag cael ei ollwng mewn ardaloedd rheoli mwg. Mae pedair ardal yng Nghymru ar hyn o bryd lle mae mwg yn cael ei reoli mewn rhannau ohonynt, sef Sir y Fflint, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Gellir osgoi gweithredu'n groes i'r gwaharddiad drwy naill ai llosgi tanwyddau awdurdodedig yn unig neu drwy ddefnyddio 'lle tân esempt'. Yr hyn a olygir wrth le tân o'r fath yw stôf neu offer arall sy'n gallu llosgi tanwyddau heb eu hawdurdodi heb greu unrhyw fwg neu heb greu llawer iawn o fwg ac sydd wedi'i esemptio gan Orchymyn a wnaed gan y Cynulliad yn unol ag adran 21 o'r Ddeddf. Dros amser, mae gweithgynhyrchwyr yn datblygu offer newydd, ac mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu deg dosbarth arall i'r rheini sydd wedi'u hesemptio eisoes.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu rheoliad 3 o Reoliadau Plant (Llety Diogel) 1991. Bydd hyn yn fodd i gael gwared ar anghysonder cyfreithiol, sef bod dwy gyfundrefn ardystio ar wahân yn ofynnol er mwyn cymeradwyo'r llety diogel yn Uned Ddiogel Hillside - yr unig gartref gofal diogel ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd. Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) wedyn fydd yn rheoleiddio, yn arolygu ac yn cofrestru sefydliadau gofal diogel i blant yn y dyfodol. Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar unrhyw drefniadau arolygu ar wahân nac ar unrhyw drefniadau eraill sydd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

- **Dadl am y cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 31 a gyflwynwyd gan Tamsin**

**Dunwoody AC (45 munud)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2, yn cefnogi, mewn egwyddor, ddeddfwriaeth a fydd yn:

Darparu ar gyfer arolygu Practisys Deintyddol Preifat yng Nghymru a chyflwyno systemau ar gyfer adrodd ar unrhyw ganfyddiadau.

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2006**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

Ø **Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n disodli Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001, yn nodi darpariaethau pellach ynghylch adnabod ac adfer tir halogedig o dan Ran 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer disgrifiad ychwanegol o dir halogedig y mae'n ofynnol ei ddynodi'n safle arbennig: sef tir sy'n dir halogedig o ganlyniad i sylweddau ymbelydrol, ac yn dileu darpariaethau sy'n gysylltiedig ag apelau i lys ynadon yn erbyn hysbysiadau adfer, o ganlyniad i ddiwygiadau i adran 78L o Ddeddf 1990 a wnaed gan adran 104 o Ddeddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005**.**

Ø **Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno nifer o newidiadau arfaethedig allweddol mewn perthynas â thir a halogwyd yn ymbelydrol. Mae Rhan 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, yn nodi cyfundrefn ar gyfer adnabod ac adfer tir halogedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu Rhan 2A er mwyn adnabod ac adfer tir a halogwyd yn ymbelydrol yng Nghymru ac maent yn newid y geiriad yn Rhan 2A sy'n ymdrin â niwed sy'n cael ei achosi gan ymbelydredd sy'n deillio o safleoedd trwyddedig nad ydynt yn rhai niwclear.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Lleol, sy'n nodi eu polisïau trafnidiaeth, ar gyfer eu hardal. Bydd y Gorchymyn hwn yn galluogi'r awdurdodau i baratoi'r Cynlluniau hyn ar sail ranbarthol yn hytrach nag ar sail awdurdod unigol. O dan adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, mae'n ofynnol i bob awdurdod trafnidiaeth lleol ddatblygu polisïau er mwyn hyrwyddo ac annog cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth sy'n ddiogel, yn integredig, yn effeithlon ac yn economaidd i mewn i'w hardaloedd, allan ohonynt ac oddi mewn iddynt ac i gyflawni'u swyddogaethau mewn ffordd sy'n gweithredu'r polisïau hynny. Bydd yn ofynnol hefyd o dan y Gorchymyn hwn i ddisodli cylch cyntaf y Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol, a gafodd eu paratoi yn 2000, erbyn 30 Mehefin 2008 fan hwyraf.

- **Cynnig i gymeradwyo Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Cychwyn) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym rai o ddarpariaethau Rhan 6 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 mewn perthynas â Chymru. Mae'r darpariaethau yn atal hawl tramwy i gerbydau a yrrir yn fecanyddol gael ei chreu ar sail defnydd parhaol dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae hefyd yn dileu unrhyw hawliau tramwy ar gyfer cerbydau a yrrir yn fecanyddol onid ydynt wedi'u cofnodi ar fap a datganiad diffiniol. Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi grym i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wneud Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

- **Dadl am Gynlluniwyd i'w Gyflawni (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

  Ø **Rheoliadau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r trefniadau ar gyfer arolygu gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru o dan y pwerau newydd a roddwyd i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan Ddeddf 2005 (y Ddeddf). Bydd y Ddeddf a'r Rheoliadau cysylltiedig yn golygu y bydd y ffordd yr arolygir gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig yn gyson â'r ffordd yr arolygir yr holl Addysg a Hyfforddiant arall yng Nghymru sy'n rhan o gylch gwaith y Prif Arolygydd.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu gofynion Erthygl 3 ynn Nghyfarwyddeb 'Cyfranogiad y Cyhoedd' 2003/35/EC. Maent yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 ac yn diweddaru rhai o'r diffiniadau sy'n gysylltiedig ag Asesu Effeithiau Amgylcheddol yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 1986 er mwyn caniatáu taliadau am golli enillion mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant parhaus yr ymgymerir â hwy gan optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig sydd ar restrau'r holl Fyrddau Iechyd Lleol.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu trefniadau adolygu annibynnol ar gyfer adolygu penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan asiantaethau mabwysiadu, os ydynt yn bwriadu:

  - peidio â chymeradwyo darpar fabwysiadydd fel rhai sy'n addas i fabwysiadu plentyn;
  - dirymu cymeradwyaeth i ddarpar fabwysiadwyr y bernir nad ydynt yn addas mwyach i fabwysiadu plentyn;
  - peidio â symud ymlaen â chais am ddatgelu gwybodaeth;

- datgelu gwybodaeth am berson lle nad oes caniatâd wedi'i roi i ddatgelu'r wybodaeth honno; a
- pheidio â datgelu gwybodaeth am berson lle mae caniatâd wedi'i roi i ddatgelu'r wybodaeth honno.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005 drwy:

- ychwanegu esemptiadau pellach rhag y gofyniad i sefydlu gorchudd glas (e.e. glaswellt) erbyn dechrau'r tymor gorchudd glas;
- ychwanegu darpariaeth sy'n caniatáu i ffermwyr drin tir sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith gynhyrchu ar neu ar ôl 1 Mai, ac sy'n dir organig, at ddibenion rheoli chwyn;
- dileu'r cyfyngiad ar bori ar ôl y cyfnod neilltuo pan fo'r gorchudd glas wedi'i amnewid;
- pennu amodau rheoli newydd ar gyfer defnyddio plaleiddiaid a chwynleiddiaid ar dir sydd wedi'i neilltuo;
- diweddaru cyfeiriadau at Reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd 795/2004 a 1973/2004 a Rheoliad Cyngor Ewrop 1782/2003 i adlewyrchu'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud i'r Rheoliadau hyn ers i Reoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005 ddod i rym ar 15 Ionawr 2005; a
- rhoi'r geiriau "9 Chwefror" yn lle'r geiriau "31 Ionawr" ar gyfer y dyddiad olaf ym mhob blwyddyn i'r rheini sy'n casglu ac yn prosesu deunyddiau crai a gynhyrchwyd ar neilltir at ddibenion heblaw am fwyd hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru am faint o'r deunyddiau hynny a gafwyd.

- **Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (Taliadau am Addysg a Hyfforddiant Parhaus) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 29 (15 munud)**

Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006 ac maent yn rhoi manylion i'r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch sut y maent i brosesu ceisiadau am daliadau ar gyfer addysg a hyfforddiant parhaus y mae optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig wedi ymgymryd â hwy.

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan adran 13(6) o Ddeddf Nawdd**

**Cymdeithasol 1988 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

- **Dadl am Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (30 munud)**

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2006**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y T• (5 munud)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Tir Comin 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl am 7fed Adroddiad Blynyddol y Cynulliad am Gydraddoldeb (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

---

[1]
Moleciwlau bach sy'n bondio'n glinigol â monomerau eraill i ffurfio polymer

[2]
Deunyddiau sy'n cael eu defnyddio i estyn oes silff bwydydd wedi'u pecynnu neu i wella'u cyflwr